



Gwneud Treth Gyngor yn fwy teg

Cyfnod 2

Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl



Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan Lywodraeth Cymru. Mae'n fersiwn hawdd ei deall o 'Treth Gyngor Decach'.

Tachwedd 2023

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon



Dogfen hawdd ei deall yw hon. Os ydych chi angen help o hyd i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

E-bost: LGFR.ymgynghoriadau@llyw.cymru



Gwnaeth [Hawdd ei Ddeall Cymru](#) y ddogfen hon yn **Hawdd ei Ddeall** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei deall hon, [cliciwch yma](#).

[Rhif trwydded ffotosymbolau 403527247.](#)

Cynnwys

Gwybodaeth am y ddogfen hon	4
Gwybodaeth am y Dreth Gyngor	6
Beth y mae'r Dreth Gyngor yn talu amdano?	6
Pam rydyn ni eisiau gwneud newidiadau	7
Systemau Treth Gyngor newydd posibl	9
Pryd fydd y newidiadau'n cael eu gwneud.....	14
Cynghorau.....	16
Newidiadau eraill i'r Dreth Gyngor	17
Cwestiynau	20

Gwybodaeth am y ddogfen hon



Rydyn ni eisiau gwneud y Dreth Gyngor yn fwy teg.



Rydyn ni ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl am ein syniadau.



Gofynnnon ni rai cwestiynau am hyn yn **Cyfnod 1**.



I gael mwy o wybodaeth gallwch ddarllen am **Cyfnod 1** yma: [Gwneud Dreth Gyngor yn fwy teg](#).



Rydyn ni'n mynd i ofyn mwy o gwestiynau am hyn. Mae hyn yn cael ei alw'n **Cyfnod 2**.



Basen ni'n hoffi gwybod beth rydych chi'n feddwl erbyn **Dydd Mawrth 6 Chwefror 2024**.



Darllenwch y llyfryn hwn, yna atebwch y cwestiynau yn y cefn.

Gwybodaeth am y Dreth Gyngor

Beth mae'r Dreth Gyngor yn talu amdano?



Mae Dreth y Gyngor yn helpu i dalu am:

- Ysgolion
- Gofal cymdeithasol
- Trafnidiaeth a ffyrdd
- Tai
- Gwasanaethau tân ac achub
- Yr heddlu
- Llawer o wasanaethau eraill



Mae pobl yn aml yn meddwl bod y Dreth Gyngor yn talu am gasglu sbwriel yn unig. Dydy hyn ddim yn wir.

Pam rydyn ni eisiau gwneud newidiadau



Mae'r system Treth Gyngor sydd gennym wedi mynd yn rhy hen.



Cafodd ei chreu ar gyfer gwerth tai yn 2003.



Efallai bod pobl sy'n byw mewn tai sydd werth llai na thai eraill yn talu mwy o Dreth y Cyngor nag y dylen nhw.



Dydy hyn ddim yn deg.



Byddai newid system y Dreth Gyngor yn fwy teg i lawer o bobl.



Rydyn ni'n meddwl bod angen edrych beth yw gwerth pob cartref.




Mae'r Dreth Gyngor yn cael ei rhannu'n grwpiau, sy'n cael eu galw'n **fandiau**.



Mae gwerth eich cartref yn penderfynu i ba **fand** rydych chi'n perthyn.



Ac rydyn ni'n meddwl bod angen dechrau system newydd o **fandiau**. Byddai hyn yn fwy teg.



Mae hanner cartrefi Cymru yn cael peth help i dalu'r Dreth Gyngor.



Wnawn ni ddim ceisio codi mwy o arian trwy newid y system Treth Gyngor. Byddwn yn codi'r un faint o arian, ar gyfer gwasanaethau lleol.

Systemau Treth Gyngor newydd posibl



Rydyn ni wedi meddwl am **dair ffordd** o greu system Treth Gyngor newydd.

System bosibl 1 – gyda’r lleiaf o newidiadau



Byddai gennym ni naw band Treth Gyngor o hyd, fel sydd gennym ni nawr.



Ond byddai prisiau’r holl dai yn cael eu diweddaru i brisiau Ebrill 2023. Byddai hyn ddim bob tro yn cynyddu eich bil treth gyngor.



Mae hyn yn gwneud y system yn fwy addas i 2023, ond nid yw mor deg â’r 2 system bosibl arall.



Gyda'r system bosibl hon, byddai bandiau y rhan fwyaf o bobl yn aros yr un fath, ond byddai rhai biliau yn is a rhai biliau yn uwch.

System bosibl 2 – Mwy o newidiadau



Byddai naw o fandiau o hyd.



A byddai prisiau tai i gyd yn cael eu diweddarau i lefelau 2023.



Ond y tro yma, byddai swm y dreth gyngor ym mhob band yn wahanol.



Byddai'r swm o arian i'w dalu ar gyfer pob band yn newid. A byddai pobl sy'n byw mewn tai sydd werth llai yn talu llai o dreth gyngor nag y maen nhw'n ei wneud nawr.



Byddai pobl mewn tai sydd werth mwy yn talu mwy o dreth gyngor nag y maen nhw'n ei wneud nawr.



Mae hon yn system fwy teg. Byddai rhai pobl yn talu llai a rhai pobl yn talu yr un faint â nawr.



Yn yr enghraifft hon, byddai tua **7 allan o 10** o bobl yn talu llai, neu ddim yn gweld llawer o newid.

System bosibl 3 – Y rhan fwyaf o newidiadau



Byddai holl brisiau tai yn cael eu diweddaru i lefelau 2023.



A byddai **tri band** ychwanegol.



Byddai **un band** ychwanegol ar gyfer y tai lleiaf drud yng Nghymru, a byddai dau fand ychwanegol ar gyfer y tai mwyaf drud yng Nghymru.



Byddai pobl yn y tai drytaf yn talu mwy, a'r bobl yn y tai rhataf yn talu llai.



Byddai'r system bosibl hon yn helpu ardaloedd mwyaf tlawd Cymru.



Mae system **bosibl 1**, syn gwneud y lleiaf o newidiadau, yn fwy addas i 2023, ond mae'n dal yn annheg.

Mae system **bosibl 2** yn gwneud mwy o newidiadau ac mae'n decach.

System **bosibl 3** fyddai'n gwneud y mwyaf o newidiadau. A system 3 sy'n rhoi'r toriad mwyaf yn y bil treth gyngor i bobl sy'n talu llai a'r cynnydd mwyaf yn y biliau i bobl sy'n talu mwy.

Pryd fydd y newidiadau'n cael eu gwneud



Gallwn ni newid y system Treth Gyngor ym mis **Ebrill 2025**.



Ond gallwn ddewis gwneud newidiadau fesul tipyn. Mae hyn oherwydd bod mwy o angen am arian yng Nghymru.



Mae gennym ni dri dewis wrth i ni wneud y newidiadau:

1. Gwneud y newidiadau o **Ebrill 2025**. Bydd biliau rhai pobl yn mynd i lawr yn fwy cyflym.
2. Aros tan dymor nesaf y Senedd yn 2028. Bydd biliau pobl yn cymryd mwy o amser i fynd i lawr. Ond bydd biliau rhai pobl yn cymryd mwy o amser i fynd i fyny.
3. Fe allen ni wneud y newidiadau mewn camau. Gallen ni ddechrau yn **2025** gyda llai o newidiadau, ac yna gwneud mwy o newidiadau ar ôl **2028**.



Rydyn ni'n meddwl y bydd arnon ni angen edrych ar werth tai bob 5 mlynedd.



Yn y dyfodol efallai y bydd angen edrych ar werth tai bob tair blynedd.

Cynghorau



Byddwn yn gweithio drwy'r amser gyda chynghorau lleol i wneud yn siŵr bod y newidiadau'n digwydd mewn ffordd dda.



Bydd system fwy teg yn helpu cynghorau. Bydd llai o bobl yn gorfod defnyddio **Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor**.



Dyma enw'r cynllun sy'n tynnu arian oddi ar Dreth Gyngor i'r bobl sydd angen talu llai.



Rydyn ni'n meddwl y bydd newidiadau'r Dreth Gyngor yn helpu i amddiffyn gwasanaethau cyhoeddus.



Gwasanaethau cyhoeddus yw pethau fel ysgolion a'r heddlu.

Newidiadau eraill i'r Dreth Gyngor



Mae hwn yn gyfle i wneud y system Dreth Gyngor yn well i bawb.



Er enghraifft, rydym wedi gweld bod pobl ddim yn gwybod beth y mae Treth y Cyngor yn talu amdano.



I helpu gyda hyn rydyn ni'n mynd i wneud gwefan i sôn am y Dreth Gyngor.



Byddwn yn ei gwneud hi'n haws deall beth ydy'r Dreth Gyngor. A bydd yn haws ffeindio gwybodaeth am y Dreth Gyngor.

Rydyn ni eisiau gwneud newidiadau eraill hefyd. Y prif bethau ydy:



- Llywodraeth Cymru yn cychwyn system i gefnogi teuluoedd fydd yn newid **bandiau**.



- Bydd hi'n haws cwestiynu **band** Treth Gyngor ar ôl iddo gael ei newid os na fydd pobl yn cytuno â'r **band**.



- Bydd yn haws gwneud **apêl** am y Dreth Gyngor. **Apêl** yw pan fydd rhywun yn anghytuno â rhywbeth ac yn ei herio.



- Os oes dim ond yn person mewn cartref yn talu'r Dreth Gyngor, bydd, yn dal i gael yr un faint o arian ffwrdd o'r bil Treth Gyngor.



- Bydd **Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor** yn dal gennym.



- Byddwn yn edrych ar ein systemau ac yn eu gwella mewn ffordd fydd yn helpu pobl i gael arian oddi ar eu bil Treth Gyngor.



- Byddwn yn gwneud deddf newydd fydd yn ei gwneud yn haws newid rheolau'r Dreth Gyngor. **Deddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)** fydd enw hon.



- Rydyn ni eisiau newid y rheolau am Dreth Gyngor ar gartrefi gwag ble mae rhywun wedi marw. Y person y mae'r cartref wedi cael ei adael iddo fyddai'n talu'r Dreth Gyngor, ar ôl cyfnod o amser.



- Mae arnon ni eisiau newid y term 'nam meddyliol difrifol' i:
 - amhariad ymenyddol arwyddocaol
 - cyflwr ymenyddol arwyddocaol.

Cwestiynau

Cwestiwn 1



Pa fand Treth y Gyngor ydych chi yn ddo? Ticiwch un boc. [Gallwch edrych beth yw eich band Treth y Gyngor trwy glicio yma.](#)

Band A

Band B

Band C

Band D

Band E

Band F

Band G

Band H

Band I

Dydw i ddim yn talu Treth y Gyngor

Ddim yn berthnasol

Cwestiwn 2



Pwy yw eich Cyngor Lleol?

Ynys Môn

Abertawe

Gwynedd

Castell Nedd Port Talbot

Conwy

Pen-y-bont ar Ogwr

Sir Ddinbych

Bro Morgannwg

Sir y Flint

Rhondda Cynon Taf

Wrecsam

Merthyr Tydfil

Powys

Caerffili

Ceredigion

Blaenau Gwent

Sir Benfro

Torfaen

Sir Gaerfyrddin

Sir Fynwy

Casnewydd

Caerdydd

Ddim yn berthnasol

Cwestiwn 3



Rydyn ni wedi rhoi tair system bosibl ar gyfer Treth Gyngor fwy teg. Pa un ydych chi'n meddwl sydd orau? Neu a oes gennych chi unrhyw syniadau eraill? Darlennwch tudalen 9 i 13.

System bosibl 1

System bosibl 2

System bosibl 3

Unrhyw syniadau eraill



Cwestiwn 4

Ar dudalen 14 ac 15 fe wnaethon ni ddweud pryd fyddwn ni'n gwneud y newidiadau 'r Dreth Gyngor. Pa ddewis ydych chi'n meddwl sydd orau?

Dewis 1 – Newidiadau cyflymaf

Dewis 2 – Newdiadau arafaf

Dewis 3 – Newid gam-wrth-gam



Neu a oes gennych chi unrhyw syniadau eraill?
Ysgrifennwch nhw yma:



Cwestiwn 5

Ewch i dudalen 19. Ydych chi'n meddwl y dylai rhywun dalu Treth Gyngor pan fydd cartref wedi bod yn wag am amser hir ar ôl i rywun farw?

Ydw

Nac ydw



Cwestiwn 6

Pa mor hir y dylai'r cartref fod yn wag cyn i Dreth y Gyngor orfod cael ei dalu?

2 flynedd

3 blynedd

4 blynedd

Dewis arall dywedwch pa mor hir:

Cwestiwn 7



Ewch i dudalen 19. Pa enw rydych chi'n meddwl ddylai gymryd lle y term 'nam meddyliol difrifol'?

Dewis A: amhariad ymenyddol arwyddocaol

Dewis B: cyflwr ymenyddol arwyddocaol

Cwestiwn 8



Ydych chi'n cytuno â diffiniad y term 'nam meddyliol difrifol' sydd i'w weld yn y paragraff nesaf:

Y diffiniad yw: cyflwr neu newid meddyliol arwyddocaol (a pharhaol), sy'n effeithio ar allu'r ymennydd i weithio.

Ydw

Nac ydw

Unrhyw syniadau eraill:

Cwestiwn 9:



Beth ydych chi'n ei feddwl am y profion i weld a yw person sydd ag amhariad neu gyflwr ymenyddol arwyddocaol yn cael arian i ffwrdd o'r Dreth Gyngor. Dewiswch un o'r rhain:

Dewis 1: Ni ddylai person ag amhariad neu gyflwr ymenyddol arwyddocaol ateb unrhyw ofynion i gael arian oddi ar y Dreth Gyngor. Ond bydd rhaid i bobl ddangos prawf meddygol.

Dewis 2: Os gall y person roi prawf o ddiagnosis, does dim angen bodloni unrhyw ofynion eraill. Gall hyn ddibynnu ar y cyngor ble rydych chi'n byw.

Unrhyw syniadau eraill: Ysgrifennwch eich syniadau yma:



Cwestiwn 10

Ydych chi'n meddwl y byddai ein cynlluniau yn effeithio ar yr iaith Gymraeg?

Ydw

Nac ydw

Sut gallwn ni wneud yn siŵr y byddai'r iaith Gymraeg yn cael yr un tegwch â'r iaith Saesneg? Ysgrifennwch eich syniadau yma.



Cwestiwn 11

Ydych chi'n meddwl y gallai'r cynlluniau hyn roi cyfle i ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn well? Dywedwch wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl.



Cwestiwn 12

Oes unrhyw beth yr hoffech chi ddweud am y pethau hyn? Ysgrifennwch eich syniadau yma.



Anfonwch y ffurflen hon yn ôl drwy'r post neu e-bost at:

E-bost: LGFR.ymgynghoriadau@llyw.cymru



Post: Is-adran Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Caerdydd
CF10 3NQ



Anfonwch hwn yn ôl erbyn: 6 Chwefror 2024